



# Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

2010 mccc 4

Nodiadau Esboniadol

# National Assembly for Wales Remuneration Measure 2010

2010 nawm 4

Explanatory Notes

£5.75

# **MESUR CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU (TALIADAU) 2010**

---

## **NODIADAU ESBONIADOL**

### **Rhagymadrodd**

1. Mae'r nodiadau esboniadol hyn yn cyfeirio at Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 a gafodd ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 26 Mai 2010 a'i gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor ar [21 Gorffennaf 2010]. Maent wedi'u paratoi gan y Gwir Anrh. yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, i helpu i ddeall y Mesur. Nid ydynt yn rhan o'r Mesur ac nid ydynt wedi'u hategu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
2. Mae angen i'r nodiadau gael eu darllen ar y cyd â'r Mesur. Nid disgrifiad cynhwysfawr o'r Mesur mohonynt, ac nid felly y'u bwriedir. Felly, os nad yw'n ymddangos bod angen esboniad neu sylw ar adran neu ran o adran, does dim un yn cael ei roi.

## **SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU**

### **Cynllun cyffredinol y Mesur**

3. Nod allweddol y Mesur yw trosglwyddo gwaith penderfynu ar daliadau Aelodau Cynulliad a deiliaid swyddi ychwanegol, rhai presennol a blaenorol, o Gomisiwn y Cynulliad i Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Bwrdd"). Roedd trosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn yn ganolog i nifer o'r argymhellion a gafwyd yn adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol ("y Panel") o dan y teitl *Yn Gywir i Gymru: Adolygiad annibynnol o'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad* (Gorffennaf 2009). Mae'r adroddiad hwn i'w weld ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

*<http://www.cynulliadcyfrydol.org/irp-reportjuly09-e.pdf>*

4. Mae i'r Mesur 20 o adrannau a thair atodlen. Mae adran 1 yn sefydlu'r Bwrdd. Mae adrannau 2, 3 a 12 i 15 yn nodi swyddogaethau'r Bwrdd ac ym mha fod y mae'n rhaid i'r swyddogaethau hynny gael eu harfer. Mae

# NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES REMUNERATION MEASURE 2010

---

## EXPLANATORY NOTES

### Introduction

1. These explanatory notes are for the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 2010 which was passed by the National Assembly for Wales on 26 May 2010 and approved by Her Majesty in Council on [21 July 2010]. They have been prepared by the Rt Hon the Lord Elis-Thomas AM, the Chair of the Assembly Commission, to assist understanding of the Measure. They do not form part of the Measure and have not been endorsed by the National Assembly for Wales.
2. The notes need to be read in conjunction with the Measure. They are not, and are not meant to be, a comprehensive description of the Measure. So, where a section or part of a section does not seem to require any explanation or comment, none is given.

## COMMENTARY ON SECTIONS

### General scheme of the Measure

3. The key aim of the Measure is to transfer the role of making determinations on the remuneration of current and former Assembly Members and holders of additional offices from the Assembly Commission to the National Assembly for Wales Remuneration Board ("the Board"). This transfer of responsibility was central to a number of the recommendations contained in the report of the Independent Review Panel ("the Panel") entitled *Getting it Right for Wales*: an independent review of the current arrangements for the financial support of Assembly Members (July 2009). This report can be found on the National Assembly for Wales' website at:

*<http://www.assemblywales.org/irp-reportjuly09-e.pdf>*

4. The Measure consists of 20 sections and three schedules. Section 1 establishes the Board. Sections 2, 3, and 12 to 15 set out the functions of the Board and the manner in which those functions must be exercised. Sections 4 to 7 and Schedules 1 and 2 deal with appointment to and termination of membership of the Board. Issues of an administrative nature including the terms and conditions of appointment to the Board, its administrative support, the

adrannau 4 i 7 ac Atodlenni 1 a 2 yn ymdrin â phenodi i'r Bwrdd a therfynu aelodaeth ohono. Yn adrannau 8 i 11 darperir ar gyfer materion o natur weinyddol, gan gynnwys telerau ac amodau penodi i'r Bwrdd, y cymorth gweinyddol iddo, amledd y cyfarfodydd a'r gofyniad bod rhaid cynhyrchu adroddiad blynnyddol. Mae adran 16 ac Atodlen 3 yn nodi diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") ac mae adran 17 yn diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Yn olaf, yn adrannau 18 i 20 ceir darpariaethau cyffredinol.

#### **Adran 1: Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

5. Mae'r adran hon yn sefydlu'r Bwrdd, sydd i gynnwys Cadeirydd a phedwar aelod arall. Gall cadeirydd dros dro gael ei benodi gan yr aelodau eraill os ceir lle gwag neu os na all y Cadeirydd weithredu, er enghraifft os na all y Cadeirydd fod yn bresennol mewn cyfarfod penodol.
6. Mae'r adran hon hefyd yn nodi'r paramedrau y mae'n rhaid i'r Bwrdd weithredu o'u mewn. Mae is-adran (4) yn ei gwneud yn ofynnol bod rhaid cael o leiaf dri aelod yn bresennol er mwyn i unrhyw un o gyfarfodydd y Bwrdd gael ei gynnal. Mae is-adran (5) yn datgan bod rhaid i unrhyw benderfyniad a wneir gan y Bwrdd o dan adrannau 20(6), 24(1) neu 53(7) o'r Ddeddf (gweler paragraff 11 isod) gael ei gymeradwyo gan o leiaf dri o'r aelodau. Mae is-adran (6) yn darparu bod rhaid i'r Bwrdd gydymffurfio hefyd â'r dyletswyddau a nodir yn adran 2(2) o'r Mesur (gweler paragraff 9 isod). Yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau hyn, bydd y Bwrdd yn gosod ei weithdrefnau ei hun.
7. Mae is-adran (7) yn darparu na fydd lle gwag ymhlið yr aelodau neu ddiffyg wrth benodi aelod yn effeithio ar ddilysrwydd trafodion y Bwrdd.

#### **Adran 2: Annibyniaeth, bod yn agored ac yn gynhwysol**

8. Mae is-adran (1) yn sefydlu annibyniaeth y Bwrdd rhag unrhyw ddylanwad gan y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad wrth iddo arfer ei swyddogaethau.
9. Mae is-adran (2) yn gosod dyletswydd bendant ar y Bwrdd i weithredu mewn modd agored a thryloyw yn gyffredinol. Mae hefyd yn ofynnol i'r Bwrdd roi gwybod i'r cyhoedd am ei weithgareddau drwy roi cyhoeddusrwydd iddynt ar wefan y Cynulliad. Mae is-adran (2) wedi'i hamodi gan is-adran (3) sy'n caniatáu i'r Bwrdd ystyried mater yn breifat pan

frequency of meetings and the requirement to produce an annual report are provided for in sections 8 to 11. Section 16 and Schedule 3 set out amendments to the Government of Wales Act 2006 (“the Act”) and section 17 amends the Freedom of Information Act 2000. Finally, sections 18 to 20 contain general provisions.

## **Section 1: National Assembly for Wales Remuneration Board**

5. This section establishes the Board, which is to consist of a Chair and four other members. An Acting Chair may be appointed by the other members if there is a vacancy or if the Chair is unable to act, for example, if the Chair cannot attend a particular meeting.
6. This section also sets out the parameters within which the Board must act. Subsection (4) requires that at least three members must be present for any meeting of the Board to be conducted. Subsection (5) states that at least three members must approve any determination the Board makes under sections 20(6), 24(1) or 53(7) of the Act (see paragraph 11 below). Subsection (6) provides that the Board must also comply with the duties set out in section 2(2) of the Measure (see paragraph 9 below). Subject to these constraints, the Board will set its own procedures.
7. Subsection (7) provides that any vacancy among the members or a defect in the appointment of a member will not affect the validity of the Board’s proceedings.

## **Section 2: Independence, openness and inclusiveness**

8. Subsection (1) establishes the Board’s independence from any influence by the Assembly or the Assembly Commission when exercising its functions.
9. Subsection (2) imposes on the Board an express duty generally to act in an open and transparent manner. The Board is also required to keep the public informed about its activities by publicising them on the Assembly’s website. Subsection (2) is qualified by subsection (3), which allows the Board to consider a matter in private where the Board considers this is appropriate. An example might be when taking legal advice or when finalising a draft determination.
10. Subsection (4) sets out a list of consultees and requires the Board to consult with those of them that might be affected by its decisions, except when the Board considers that there are circumstances that would make it

fo'r Bwrdd o'r farn bod hynny'n briodol. Un enghraifft fyddai wrth gymryd cyngor cyfreithiol neu wrth bennu manylion terfynol penderfyniad drafft.

10. Mae is-adran (4) yn nodi rhestr o ymgynghoreion gan ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori â'r rhai hynny ohonynt y gallai ei benderfyniadau effeithio arnynt, ac eithrio pan fo'r Bwrdd o'r farn bod yna amgylchiadau a fyddai'n gwneud hynny'n amhriodol. Wrth ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad fel hyn, mae is-adran (5) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd roi sylw i'w ddyletswydd i weithredu'n annibynnol o ran cyflawni ei swyddogaethau, yn unol ag is-adran (1).

### **Adran 3: Swyddogaethau'r Bwrdd**

11. Mae'r adran hon yn darparu mai prif swyddogaethau'r Bwrdd yw'r rhai a roddir iddo gan adrannau 20, 22, 24, 53 a 54 o'r Ddeddf fel y'i diwygiwyd gan y Mesur hwn. Mae adrannau 20 a 22 o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi i'r Bwrdd y swyddogaeth o wneud penderfyniadau ynglŷn â chyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau'r Cynulliad. Mae adran 24 (fel y'i diwygiwyd) yn rhoi i'r Bwrdd y swyddogaeth o wneud penderfyniadau ynglŷn â thaliadau i grwpiau gwleidyddol o Aelodau'r Cynulliad. Mae adrannau 53 a 54 (fel y'u diwygiwyd) yn rhoi i'r Bwrdd y swyddogaeth o wneud penderfyniadau ynglŷn â Phrif Weinidog Cymru, Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol.
12. Mae is-adran (2) yn nodi tri amcan y mae'n rhaid i'r Bwrdd geisio'u gwireddu wrth arfer ei swyddogaethau: yn gyntaf, darparu lefel taliadau ar gyfer Aelodau'r Cynulliad sy'n adlewyrchiad teg o gymhlethdod a phwysigrwydd y swyddogaethau y mae disgwyl iddynt eu cyflawni ac nad yw, ar sail ariannol, yn atal personau y mae ganddynt yr ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol yn Aelodau o'r Cynulliad; yn ail, darparu adnoddau digonol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad i'w galluogi i arfer eu swyddogaethau fel Aelodau o'r Cynulliad ac, yn drydydd, sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario mewn modd priodol ac atebol, gan sicrhau gwerth am arian a thryloywder.
13. Mae is-adran (3) yn gosod dyletswydd ar y Bwrdd i adolygu'n barhaus i baraddau y mae'r amcanion hyn yn cael eu cyflawni gan benderfyniadau'r Bwrdd. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Bwrdd gymryd i ystyriaeth sut mae'r penderfyniadau hynny wedi gweithredu, unrhyw newidiadau yn

inappropriate to do so. Subsection (5) requires that, in carrying out such consultation with Assembly Members, the Board must have regard to its duty to act independently in relation to the discharge of its functions, in accordance with subsection (1).

### **Section 3: Functions of the Board**

11. This section provides that the Board's main functions are those conferred on it by sections 20, 22, 24, 53 and 54 of the Act as amended by this Measure. Sections 20 and 22 of the Act (as amended) give the Board the function of making determinations relating to Assembly Members' salaries, allowances and pensions. Section 24 (as amended) gives the Board the function of making determinations regarding payments to political groups of Assembly Members. Sections 53 and 54 (as amended) give the Board the function of making determinations relating to the First Minister, Welsh Ministers and Deputy Ministers and the Counsel General.
12. Subsection (2) sets out three objectives that the Board must seek to achieve when exercising its functions: firstly, providing Assembly Members with a level of remuneration which fairly reflects the complexity and importance of the functions which they are expected to discharge and which does not deter, on financial grounds, persons with the necessary commitment and ability from seeking election as Assembly Members; secondly, providing Assembly Members with adequate resources to enable them to exercise their functions as Assembly Members and, thirdly, ensuring that public money is spent with probity, accountability, value for money and transparency.
13. Subsection (3) places a duty on the Board to keep under review the extent to which these objectives are being achieved by the Board's determinations. When doing so, the Board must take into account how those determinations have operated, any changes in the functions of Assembly Members and any other relevant changes in circumstances.
14. The Board may, on its own initiative or at the written request of the Clerk of the Assembly, consider any other matter relevant to the discharge of its functions.

### **Section 4: Disqualification from membership of the Board**

15. This section introduces Schedule 1 which contains a list of persons who are disqualified from being a member of the Board (see paragraph 39 below).

swyddogaethau Aelodau'r Cynulliad ac unrhyw newidiadau perthnasol eraill yn yr amgylchiadau.

14. Fe gaiff y Bwrdd ystyried unrhyw fater arall sy'n berthnasol i gyflawni ei swyddogaethau, naill ai o'i ben a'i bastwn ei hun neu ar ôl cael cais ysgrifenedig gan Glerc y Cynulliad.

#### **Adran 4: Anghymhwys o rhag bod yn aelod o'r Bwrdd**

15. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 1 sy'n cynnwys rhestr o'r personau sydd wedi'u hanghymhwys o rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd (gweler paragraff 39 isod).

#### **Adran 5: Pŵer i ddiwygio Atodlen 1**

16. Mae'r adran hon yn galluogi'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymhwys o rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd i gael ei diwygio o dro i dro, yng ngoleuni newidiadau yn yr amgylchiadau, heb fod angen Mesur diwygio.
17. Mae angen penderfyniad gan y Cynulliad i ddiwygio Atodlen 1 (drwy ychwanegu neu ddileu swydd neu berson, neu drwy addasu'r disgrifiad o swydd neu berson o'r fath). Pan fydd penderfyniad o'r fath wedi'i basio, mae is-adran (2) yn darparu'r modd deddfwriaethol i roi'r penderfyniad hwnnw ar waith. Mae hyn yn cael ei wneud drwy roi pŵer i'r Cwnsler Cyffredinol i roi ei effaith i benderfyniad y Cynulliad drwy wneud gorchymyn drwy offeryn statudol. Mae'n rhaid i'r Cwnsler Cyffredinol arfer y pŵer hwnnw cyn gynted â phosibl ar ôl cael ei hysbysu mewn ysgrifen gan y Llywydd fod y penderfyniad wedi'i basio gan y Cynulliad.

#### **Adran 6: Penodi aelodau'r Bwrdd**

18. Comisiwn y Cynulliad sydd i benodi Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd a hynny am gyfnod penodedig o bum mlynedd. Ni chaniateir penodi person yn aelod o'r Bwrdd fwy na dwywaith. Mae hynny'n golygu mai deng mlynedd yw'r cyfnod hiraf y gallai person fod yn aelod. Mae is-adran (3) yn cyflwyno Atodlen 2 (gweler paragraffau 42 i 45 isod).

## **Section 5: Power to amend Schedule 1**

16. This section enables the list of persons disqualified from membership of the Board to be amended from time to time, in the light of changing circumstances, without the need for an amending Measure.
17. A resolution of the Assembly is required to amend Schedule 1 (by adding or removing an office or person, or by altering the description of such an office or person). Once such a resolution has been passed, subsection (2) provides the legislative means for putting that decision into effect. This is achieved by conferring a power on the Counsel General to give effect to the Assembly's resolution by the making of an order by statutory instrument. The Counsel General must exercise that power as soon as possible after being notified in writing by the Presiding Officer that the resolution has been passed by the Assembly.

## **Section 6: Appointment of members of the Board**

18. The Assembly Commission is to appoint the Chair and the other members of the Board for a fixed term of five years. A person cannot be appointed as a member of the Board more than twice. This means that the maximum period that a person could be a member is ten years. Subsection (3) introduces Schedule 2 (see paragraphs 42 to 45 below).

## **Section 7: Termination of membership of the Board**

19. This section provides that the Chair and other members of the Board cease to hold office: on expiry of their terms of appointment; if they resign; if they become disqualified (under section 4 and Schedule 1); or if they are removed by resolution of the Assembly following a motion proposed by a member of the Assembly Commission on behalf of the Assembly Commission. The resolution, if voted on, must be passed with a two-thirds majority in the Assembly.

## **Section 8: Terms and conditions**

20. The Assembly Commission is to determine the terms and conditions on which the Chair and other members will hold office. The Assembly Commission must pay the Chair and other members any amounts they are entitled to under those terms and conditions.

### **Adran 7: Terfynu aelodaeth o'r Bwrdd**

19. Mae'r adran hon yn darparu bod Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd yn peidio â dal eu swydd: pan ddaw cyfnod eu penodiad i ben; os byddant yn ymddiswyddo; os cânt eu hanghymhwys (o dan adran 4 ac Atodlen 1); neu os cânt eu diswyddo yn sgil cynnig Cynulliad a gynigir gan un o aelodau Comisiwn y Cynulliad ar ran Comisiwn y Cynulliad. Os ceir pleidlais arno, rhaid i'r cynnig gael ei basio â mwyafrif o ddwy ran o dair yn y Cynulliad.

### **Adran 8: Telerau ac amodau**

20. Comisiwn y Cynulliad sydd i bennu o dan ba delerau ac amodau y bydd y Cadeirydd a'r aelodau eraill yn dal eu swyddi. Rhaid i Gomisiwn y Cynulliad dalu i'r Cadeirydd a'r aelodau eraill unrhyw symiau y mae ganddynt hawl i'w cael o dan y telerau a'r amodau hynny.

### **Adran 9: Cymorth gweinyddol**

21. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad ddarparu ar gyfer y Bwrdd y cymorth gweinyddol y mae'n rhesymol i'r Bwrdd ofyn amdano.

### **Adran 10: Cyfarfodydd y Bwrdd**

22. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr. Yn ychwanegol, rhaid i'r Bwrdd gyfarfod i ystyried mater penodol os bydd Clerc y Cynulliad yn gwneud cais mewn ysgrifen i'r Bwrdd wneud hynny. Mae adran 13 hefyd yn cynnwys gofynion sy'n effeithio ar amlder ac amser cyfarfodydd y Bwrdd. Heblaw am y cyfyngiadau hyn, mae'r Bwrdd yn rhydd i benderfynu pryd y bydd yn cyfarfod.

### **Adran 11: Adroddiad Blynnyddol**

23. Mae'r adran hon yn gosod dyletswydd ar y Bwrdd, cyn gynted â phosibl ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, i osod adroddiad blynnyddol gerbron y Cynulliad. Bydd yr adroddiad blynnyddol yn cynnwys holl weithgareddau'r Bwrdd, gan gynnwys sut y mae wedi defnyddio'i adnoddau, yn ystod y

## **Section 9: Administrative support**

21. This section requires the Assembly Commission to provide the Board with the administrative support which it reasonably requires.

## **Section 10: Meetings of the Board**

22. This section requires the Board to meet at least once every calendar year. The Board must in addition meet to consider a particular matter if the Clerk of the Assembly makes a written request for it to do so. Section 13 also contains some requirements affecting the frequency and timing of Board meetings. Apart from these restrictions, the Board is free to decide when it meets.

## **Section 11: Annual Report**

23. This section places a duty on the Board, as soon as possible after the end of each financial year, to lay before the Assembly an annual report. The annual report will extend to all of the Board's activities, including its use of resources, during the preceding financial year. It will be open to relevant Assembly committees to consider the report in detail.

## **Section 12: Determinations**

24. This section provides that the Board's determinations under sections 20(6), 24(1) or 53(7) of the Act must be in writing and communicated to the Assembly Commission. It also requires the Assembly Commission to incorporate all current determinations into a single document and to publish it.

## **Section 13: Exercise of functions in relation to salaries**

25. This section provides that the Board may not make more than one determination relating to the salaries of Assembly Members and one relating to the salaries of the Welsh Ministers (including the First Minister and Deputy Ministers) and the Counsel General for each four-year Assembly term (but see paragraph 28 below). Another salary determination may, however, be made before the end of a term if the Board is satisfied that there are exceptional circumstances making it just and reasonable to do so. By way of example,

flwyddyn ariannol flaenorol. Bydd yn agored i bwyllgorau perthnasol y Cynulliad ystyried yr adroddiad yn fanwl.

### **Adran 12: Penderfyniadau**

24. Mae'r adran hon yn darparu bod rhaid i benderfyniadau'r Bwrdd o dan adrannau 20(6), 24(1) neu 53(7) o'r Ddeddf fod mewn ysgrifen a chael eu cyfleu i Gomisiwn y Cynulliad. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad ymgorffori pob penderfyniad cyfredol mewn un ddogfen a chyhoeddi honno.

### **Adran 13: Arfer swyddogaethau mewn perthynas â chyflogau**

25. Mae'r adran hon yn darparu na chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad ynglŷn â chyflogau Aelodau'r Cynulliad ac un ynglŷn â chyflogau Gweinidogion Cymru (gan gynnwys Prif Weinidog Cymru a'r Dirprwy Weinidogion) a'r Cwnsler Cyffredinol ar gyfer pob un o dymhorau pedair blynedd y Cynulliad (ond gweler paragraff 28 isod). Er hynny, caniateir i benderfyniad arall ar gyflogau gael ei wneud cyn diwedd tymor os yw'r Bwrdd wedi'i fodloni bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n peri ei bod yn deg ac yn rhesymol gwneud hynny. Er enghraifft, gallai "amgylchiadau eithriadol" gynnwys cyfnod o chwyddiant eithriadol o gyflym.
26. Mae'r adran yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd wneud ei benderfyniad ar gyfer tymor Cynulliad o bedair blynedd, os yw'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, cyn diwedd y tymor cyn y tymor hwnnw (er mwyn iddo ddod i rym o ddechrau'r tymor Cynulliad newydd). Mae is-adrannau (7) ac (8) yn gwneud darpariaeth at achosion lle nad yw hyn yn bosibl. Ni waeth pa bryd y caiff y penderfyniadau hynny eu gwneud, mae'r is-adrannau hyn yn darparu y byddant yn effeithiol o ddechrau'r tymor y maent i fod yn effeithiol ynddo.
27. Os na fydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn diwedd y tymor cyn y tymor y mae'r penderfyniad i fod yn effeithiol ar ei gyfer, mae is-adranc (9) yn darparu y bydd penderfyniadau blaenorol yn parhau'n effeithiol nes cael eu disodli ac y bydd addasiadau'n cael eu gwneud wedyn naill ai i wneud iawn am unrhyw dandaliad, neu i adennill unrhyw ordaliad, yn ôl fel y digwydd.

“exceptional circumstances” could include a period of exceptionally rapid inflation.

26. The section requires the Board, where it is reasonably practicable to do so, to make its determination for a four-year Assembly term before the end of the term which precedes it (so that it can take effect from the beginning of the new Assembly term). Subsections (7) and (8) make provision for situations where this is not achievable. They provide that, regardless of when such determinations are made, they will have effect from the beginning of the term in which they are to have effect.
27. In the event of a determination not being made before the end of the term which precedes that in relation to which it is to take effect, subsection (9) provides that previous determinations will continue to have effect until replaced and adjustments then made either to make good any under-payment, or to recover any over-payment, as the case may be.
28. The section also makes detailed provision defining what is meant by a “term” of the Assembly. An Assembly term is normally the four year period between Assembly general elections. However, the Act provides, in certain circumstances, for extraordinary general elections before the end of that period. Unless such an election is held less than 6 months from the end of the normal term there would still be an ordinary general election at the end of the original four years. The section therefore makes it clear that in such a case no second set of salaries determinations would be needed in respect of the period between the extraordinary general election and the next ordinary one.

#### **Section 14: Exercise of functions in relation to reimbursement of costs incurred in employing staff**

29. This section provides that if the Board makes a determination providing for the reimbursement of costs incurred by Assembly Members, or groups of Assembly Members, in employing staff, the Board may not subsequently modify that determination during the financial year in which that the determination first takes effect. So, the general principle is that only one set of rules relating to the cost of employing staff will apply in any financial year. However, subsection (3) provides that the Board may depart from this where it is satisfied that there are exceptional circumstances making it just and reasonable to do so. This provision mirrors for staff employed by Assembly Members, or groups of Assembly Members, that which applies under section

28. Mae'r adran hefyd yn gwneud darpariaeth fanwl sy'n diffinio ystyr "tymor" Cynulliad. Fel rheol, y cyfnod o bedair blynedd rhwng etholiadau cyffredinol y Cynulliad yw tymor Cynulliad. Er hynny, mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer etholiadau cyffredinol anghyffredin cyn diwedd y cyfnod hwnnw, o dan amgylchiadau penodol. Oni bai bod etholiad o'r fath yn cael ei gynnal lai na 6 mis o ddiwedd y tymor arferol fe fyddai etholiad cyffredinol cyffredin yn dal i gael ei gynnal ar ddiwedd y pedair blynedd gwreiddiol. Mae'r adran felly yn egluro na fyddai angen ail set o benderfyniadau ar gyflogau, mewn achos o'r fath, ar gyfer y cyfnod rhwng yr etholiad cyffredinol anghyffredin a'r etholiad cyffredinol cyffredin nesaf.

**Adran 14: Arfer swyddogaethau mewn perthynas ag ad-dalu costau a ysgwyddwyd wrth gyflogi staff**

29. Os bydd y Bwrdd yn gwneud penderfyniad sy'n darparu ar gyfer ad-dalu costau a ysgwyddwyd gan Aelodau Cynulliad, neu gan grwpiau o Aelodau Cynulliad, wrth gyflogi staff, mae'r adran hon yn darparu na chaiff y Bwrdd wedyn addasu'r penderfyniad hwnnw yn ystod y flwyddyn ariannol y daw'r penderfyniad i rym ynddi am y tro cyntaf. Gan hynny, yr egwyddor gyffredinol yw mai dim ond un set o reolau ynglŷn â chost cyflogi staff a fydd yn gymwys mewn unrhyw flwyddyn ariannol. Er hynny, mae is-adran (3) yn darparu y caiff y Bwrdd wyro oddi wrth hyn os yw wedi'i fodloni bod yna amgylchiadau eithriadol sy'n golygu ei bod yn gyfiawn ac yn rhesymol gwneud hynny. Mae'r ddarpariaeth hon yn atgynhyrchu ar gyfer staff a gyflogir gan Aelodau Cynulliad neu gan grwpiau o Aelodau Cynulliad y ddarpariaeth honno sy'n gymwys o dan adran 13(4) ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, Gweinidogion Cymru (gan gynnwys Prif Weinidog Cymru a'r Dirprwy Weinidogion) a'r Cwnsler Cyffredinol (gweler paragraff 25 uchod).

**Adran 15: Arfer swyddogaethau: cyffredinol**

30. Mae'r adran hon yn sicrhau bod y Bwrdd yn cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Panel (gweler yn benodol argymhellion 11, 14 a 56) gan eu cymhwys, oni bai bod rheswm da dros beidio, y tro cyntaf y bydd yn gwneud penderfyniad y mae unrhyw argymhelliad o'r fath yn berthnasol iddo. Os bydd y Bwrdd, wrth wneud penderfyniad o'r fath, yn penderfynu yn wahanol i argymhelliad perthnasol, rhaid iddo ddatgan ei resymau dros y gwahaniaeth a chyfleu'r datganiad

13(4) in relation to Assembly Members, the Welsh Ministers (including the First Minister and Deputy Ministers) and the Counsel General (see paragraph 25 above).

### **Section 15: Exercise of functions: general**

30. This section ensures that the Board takes into account the recommendations made in the Panel's report (see, in particular, recommendations 11, 14 and 56) and applies them, unless there is good reason not to, when it first makes a determination to which any such recommendation is relevant. If the Board, when making such a determination, decides to differ from a relevant recommendation, it must state its reasons for the difference and communicate that statement in writing to the Assembly Commission. The statement will be laid before the Assembly.
31. In subsequent determinations, the Board will not be obliged to have regard to the Panel's recommendations in those determinations, but may do so if it wishes. This reflects the fact that as time goes by the detailed recommendations made in the Panel's report will increasingly be superseded by the Board's own decisions incorporated into its determinations.

### **Section 16: Amendments to the Government of Wales Act 2006**

32. This section introduces Schedule 3 (see paragraph 46 below).

### **Section 17: Amendment to the Freedom of Information Act 2000**

33. This section brings the Board within the class of public authorities subject to the Freedom of Information Act 2000.

### **Section 18: Interpretation**

34. This section defines the terms used in the Measure. Terms used in the Measure that are also used in the Act will have the same meaning as they have in the Act.

hwnnw mewn ysgrifen i Gomisiwn y Cynulliad. Caiff y datganiad ei osod gerbron y Cynulliad.

31. Mewn penderfyniadau dilynol, fydd dim gofyn i'r Bwrdd roi sylw i argymhellion y Panel yn y penderfyniadau hynny, ond mae'n cael rhoi sylw iddynt os yw'n dymuno. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd yr argymhellion manwl a wnaed yn adroddiad y Panel yn cael eu disodli'n fwyfwy, wrth i amser fynd heibio, gan farn y Bwrdd ei hun a fydd yn cael ei hymgorffori yn ei benderfyniadau.

#### **Adran 16: Diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006**

32. Mae'r adran hon yn cyflwyno Atodlen 3 (gweler paragraff 46 isod).

#### **Adran 17: Diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

33. Mae'r adran hon yn dod â'r Bwrdd o fewn y dosbarth o awdurdodau cyhoeddus sy'n dod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

#### **Adran 18: Dehongli**

34. Mae'r adran hon yn diffinio'r termau sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur. Bydd i dermau sy'n cael eu defnyddio yn y Mesur ac sydd hefyd wedi'u defnyddio yn y Ddeddf yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Ddeddf.

#### **Adran 19: Darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed**

35. Diben yr adran hon yw sicrhau y bydd penderfyniadau a wnaed gan y Cynulliad neu Gomisiwn y Cynulliad a chyfarwyddiadau a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac sydd mewn grym ar hyn o bryd yn parhau mewn grym nes iddynt gael eu diwygio neu eu disodli gan y Bwrdd. Yn ychwanegol, bydd yn galluogi cyfeiriadau at y Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn y penderfyniadau a'r cyfarwyddiadau hynny i gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Bwrdd (lle bo angen gwneud hynny er mwyn rhoi ei heffaith i'r parhad hwn) heb fod angen diwygio pob cyfeiriad yn unigol.

#### **Adran 20: Enw Byr a Chychwyn**

36. Mae'r adran hon yn nodi'r trefniadau ar gyfer cychwyn y Mesur.

## **Section 19: Transitional and saving provision**

35. The purpose of this section is to ensure that determinations made by the Assembly or the Assembly Commission and directions made by the Secretary of State for Wales that are currently in force will remain in force until amended or replaced by the Board. In addition, it will enable references to the Assembly, Assembly Commission and the Secretary of State for Wales in those determinations and directions to be interpreted as references to the Board (where this is necessary in order to give effect to this continuity) without the need to amend each such reference individually.

## **Section 20: Short Title and Commencement**

36. This section sets out the arrangements for commencement of the Measure.
37. Sections 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 12, 17, 18 and 20, relate to matters such as the establishment and membership of the Board. These are to come into force on the day after that on which the Measure is approved by Her Majesty in Council.
38. The remaining provisions of the Measure deal with the conferring of functions on the Board and how they are to be exercised. These provisions will come into force on the day after a notice, confirming that those appointments have been made, is laid before the Assembly by the Clerk of the Assembly.

## **Schedule 1**

39. In order to minimise the risk of conflicts of interest, section 4 and this schedule provide that certain persons are disqualified from being members of the Board<sup>1</sup>. These are Assembly Members or candidates to be Assembly Members, members of staff of the Assembly or the Welsh Assembly Government and persons employed by Assembly Members or a group of Assembly Members for the purpose of assisting Assembly Members to perform the functions of an Assembly Member (for example support staff employed by Assembly Members). The Counsel General (where such person is not already disqualified as an Assembly Member), the Auditor General for Wales and the National Assembly for Wales Commissioner for Standards are

---

<sup>1</sup> Section 4 and Schedule 1 set out those persons disqualified by law from being members of the Board. In addition, however, those selecting potential Board members will be able to take into account, when judging their suitability, any connection with an Assembly Member (such as a family relationship) which could give rise to an actual or perceived conflict of interest.

37. Mae adrannau 1, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 12, 17, 18 ac 20 yn ymwneud â materion fel sefydlu'r Bwrdd ac aelodaeth y Bwrdd. Daw'r rhain i rym ar y diwrnod ar ôl i'r Mesur gael ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor.
38. Mae gweddill darpariaethau'r Mesur yn ymwneud â rhoi swyddogaethau i'r Bwrdd a sut mae'r rheiny i gael eu harfer. Mae'r darpariaethau hyn yn dod i rym, ar y diwrnod ar ôl i hysbysiad, sy'n cadarnhau bod y penodiadau wedi'u gwneud, gael ei osod gerbron y Cynulliad gan Glerc y Cynulliad.

## **Atodlen 1**

39. Er mwyn lleihau'r risg y bydd yna wrthdaro rhwng buddiannau, mae adran 4 a'r atodlen hon yn darparu bod personau penodol wedi'u hanghymhwys o rag bod yn aelodau o'r Bwrdd,<sup>1</sup> sef Aelodau'r Cynulliad neu ymgeiswyr i'w hethol yn Aelodau o'r Cynulliad, aelodau o staff y Cynulliad neu Lywodraeth Cynulliad Cymru a phersonau sy'n cael eu cyflogi gan Aelodau o'r Cynulliad neu gan grŵp o Aelodau'r Cynulliad er mwyn helpu Aelodau o'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau Aelod o'r Cynulliad (er enghraifft staff cymorth sy'n cael eu cyflogi gan Aelodau o'r Cynulliad). Mae'r Cwnsler Cyffredinol (os nad yw'r person hwnnw wedi'i anghymhwys eisoes fel Aelod o'r Cynulliad), Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chomisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u hanghymhwys hefyd. Mae'r rhestr o'r personau sydd wedi'u hanghymhwys hefyd yn cynnwys Aelodau o Senedd Ewrop, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon. Yn ychwanegol, chaiff person ddim bod yn aelod o'r Bwrdd os yw'n aelod o Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Comisiwn y Cynulliad, yn Gynghorydd Annibynnol i Gomisiwn y Cynulliad, yn gyn aelod o'r naill neu'r llall o'r Paneli a benodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad i adolygu tâl a lwfansau Aelodau'r Cynulliad, neu'n Gyfarwyddwr Anweithredol i Lywodraeth Cynulliad Cymru.
40. At ddibenion y Mesur hwn, mae person yn dod yn ymgeisydd i'w ethol yn Aelod o'r Cynulliad ar y diwrnod y datgenir bod y person hwnnw'n ymgeisydd neu y caiff ei enwebu'n ymgeisydd, p'un bynnag fydd gyntaf.

---

<sup>1</sup> Mae adran 4 ac Atodlen 1 yn nodi'r personau hynny sydd wedi'u hanghymhwys gan y gyfraith rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd. Ond yn ychwanegol at hynny, bydd y rhai a fydd yn dethol darpar aelodau i'r Bwrdd yn cael cymryd i ystyriaeth, wrth bwyso a mesur a ydynt yn addas, unrhyw gysylltiad ag Aelod o'r Cynulliad (megis perthynas deuluol) a allai arwain at wrthdrawiad buddiannau gwirioneddol neu dybiedig.

also disqualified. The list of disqualified persons also includes Members of the European Parliament, House of Commons, House of Lords, Scottish Parliament and Northern Ireland Assembly. In addition, a person cannot be a member of the Board if that person is a member of the Assembly Commission's Corporate Governance Committee, an Independent Adviser to the Assembly Commission, a former member of either of the panels appointed by the Assembly Commission to review the pay and allowances of Assembly Members, or a Non-Executive Director of the Welsh Assembly Government.

40. For the purposes of this Measure, a person becomes a candidate for election as an Assembly Member on the day that person is declared to be a candidate or nominated as a candidate, whichever is earlier.
41. Since, under the Act, a vacancy in an electoral region seat can lead to the filling of that vacancy by a person who was, at the last election, on a party's list for that region, without an election, persons who are could potentially become Assembly Members in that way are also disqualified.

## **Schedule 2**

42. This schedule sets out further detail on the arrangements for selecting candidates for appointment as the Chair and other members of the Board. Paragraph 1 requires the Clerk of the Assembly, on behalf of the Assembly Commission, to make the necessary arrangements. Paragraph 2 makes it clear that the Clerk may, from time to time, revise those arrangements.
43. In order to minimise any possibility of a conflict of interests, paragraph 3 requires the Clerk to ensure that no person who could be affected by the exercise of the Board's functions (for example, Assembly Members) may participate in the selection process. It also requires the Clerk to ensure that the arrangements have regard to equality of opportunity for all people.
44. Paragraph 4 requires the Clerk to publish details of the selection procedure, on the Assembly's website, in advance of, and during, the selection process.
45. Paragraphs 5 and 6 require the Assembly Commission to appoint whoever is selected by those arrangements unless the person selected is disqualified under section 4 and Schedule 1.

41. O dan y Ddeddf, gall lle gwag mewn sedd mewn rhanbarth etholiadol olygu bod person a oedd ar restr plaid ar gyfer y rhanbarth hwnnw yn yr etholiad diwethaf yn llenwi'r lle gwag hwnnw heb etholiad, ac felly mae personau a allai ddod yn Aelodau o'r Cynulliad fel hyn hefyd wedi'u hanghymhwys.

### **Atodlen 2**

42. Mae'r atodlen hon yn nodi rhagor o fanylion y trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi'n Gadeirydd ac yn aelodau eraill o'r Bwrdd. Mae paragraff 1 yn ei gwneud yn ofynnol i Glenc y Cynulliad wneud y trefniadau angenrheidiol, ar ran Comisiwn y Cynulliad. Mae paragraff 2 yn egluro y caiff y Clenc, o dro i dro, ddiwygio'r trefniadau hynny.
43. Er mwyn lleihau unrhyw bosiblwydd y bydd yna wrthdar o rhwng buddiannau, mae paragraff 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Clenc sicrhau na chaiff neb y gallai arfer swyddogaethau'r Bwrdd effeithio arno (er enghraifft, Aelodau'r Cynulliad) gymryd rhan yn y broses ddethol. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Clenc sicrhau bod y trefniadau'n rhoi sylw i gyfartal i bawb.
44. Mae paragraff 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Clenc gyhoeddi manylion y weithdrefn ddethol, ar wefan y Cynulliad, cyn a thrwy gydol y broses ddethol.
45. Mae paragraffau 5 a 6 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad benodi pwy bynnag a gaiff ei ddethol drwy'r trefniadau hynny oni bai bod y person sydd wedi'i ddethol yn anghymwys o dan adran 4 ac Atodlen 1.

### **Atodlen 3**

46. Mae'r atodlen hon yn cynnwys diwygiadau i'r Ddeddf er mwyn gwireddu diben canolog y Mesur hwn, sef trosglwyddo'r rôl mewn penderfynu ar daliadau i Aelodau Cynulliad a deiliaid swyddi ychwanegol presennol a blaenorol o Gomisiwn y Cynulliad i'r Bwrdd.

### Schedule 3

46. This schedule contains amendments to the Act in order to achieve the central purpose of this Measure, namely transferring the role in making determinations on the remuneration of current and former Assembly Members and additional office holders from the Assembly Commission to the Board.

### Record of Proceedings in the National Assembly for Wales

The following table sets out the dates for each stage of the Measure's passage through the National Assembly for Wales. The Record of Proceedings and further information on the passage of this Measure can be found on the National Assembly for Wales' website at:

[http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation.htm;](http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-legislation.htm)

Proposed Measure introduced	9 November 2009
Stage 1 - Committee consideration of general principles	26 November 2009 10 December 2009 14, 21& 28 January 2010 11 & 25 February 2010
Stage 1 - Debate in plenary on general principles	24 March 2010
Stage 2 - Committee consideration of amendments	21 April 2010
Stage 3 - Plenary consideration of amendments	26 May 2010
Stage 4 - Passing of the proposed Measure in Plenary	26 May 2010
Royal Approval in Council	21 July 2010

## **Cofnod y Trafodion yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r dyddiadau ar gyfer pob cyfnod o daith y Mesur drwy Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am daith y Mesur ar gael ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

<http://www.cynulliad.cymru.org/bus-home/bus-legislation.htm>

Cyflwyno'r Mesur arfaethedig	9 Tachwedd 2009
Cyfnod 1 – Pwyllgor yn ystyried yr egwyddorion cyffredinol	26 Tachwedd 2009 10 Rhagfyr 2009 14, 21 a 28 Ionawr 2010 11 a 25 Chwefror 2010
Cyfnod 1 – Dadl yn y cyfarfod llawn ar yr egwyddorion cyffredinol	24 Mawrth 2010
Cyfnod 2 – Pwyllgor yn ystyried y gwelliannau	21 Ebrill 2010
Cyfnod 3 – Y cyfarfod llawn yn ystyried y gwelliannau	26 Mai 2010
Cyfnod 4 – Pasio'r Mesur arfaethedig yn y cyfarfod llawn	26 Mai 2010
Y Gymeradwyaeth Frenhinol yn y Cyngor	21 Gorffennaf 2010

---

© Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**Cyhoeddwyd gan (The Stationery Office)**  
ac mae ar gael oddi wrth:

**Online**  
[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)

**Mail, Telephone, Fax & E-mail**  
TSO  
PO Box 29, Norwich NR3 1GN  
Archebion / ymholiadau ffôn 0870 600 5522  
Archebion ffacs 0870 600 5533  
[book.orders@theso.co.uk](mailto:book.orders@theso.co.uk)  
<http://www.ukstate.com>

**Siopau Llyfrau The Stationery Office**  
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD  
028 9023 8451 Ffacs 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**  
12 Bridge Street, Parliament Square,  
Llundain SW1A 2JX  
Archebion dros y ffôn/ Ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890  
Archebion ffacs: 020 7219 3866  
E-bost: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)  
Gwefan: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO @ Blackwell ac Asiantau Achrededig eraill**

**Published by TSO (The Stationery Office)**  
and available from:

**Online**  
[www.tsoshop.co.uk](http://www.tsoshop.co.uk)


**Mail, Telephone, Fax & E-mail**  
TSO  
PO Box 29, Norwich NR3 1GN  
General enquiries: 0870 600 5522  
Order through the Parliamentary Hotline *Lo-call* 0845 7 023474  
Fax orders: 0870 600 5533  
E-mail: [customer.service@tso.co.uk](mailto:customer.service@tso.co.uk)  
Textphone: 0870 240 3701

**TSO Shops**  
16 Arthur Street, Belfast BT1 4GD  
028 9023 8451 Fax 028 9023 5401

**The Parliamentary Bookshop**  
12 Bridge Street, Parliament Square,  
Llundain SW1A 2JX  
Telephone orders/General enquiries: 020 7219 3890  
Fax orders: 020 7219 3866  
Email: [bookshop@parliament.uk](mailto:bookshop@parliament.uk)  
Internet: <http://www.bookshop.parliament.uk>

**TSO @ Blackwell and other Accredited Agents**

ISBN 978-0-348-10516-2



9 780348 105162